**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 9.30am Yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Iau 16 Ionawr 2020**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Huw Davies, Gareth Wynn Davies, John Davies, Rachael Madeley Davies, Helen Howells, Barrie Jones, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams (trwy delegynhadledd)

**Trwy Wahoddiad:** Mark Alexander, Llywodraeth Cymru

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Smith (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitemau 8 a 10
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd: -

7 Tachwedd 2019 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghynhadledd flynyddol NFU Cymru.

11 Tachwedd 2019 – Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Fwrdd Ymgynghorol Strategol Cyswllt Ffermio.

22 Tachwedd 2019 – Bu'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Gweithredol Cig Coch mewn cyfarfod Llywodraethu gyda Llywodraeth Cymru.

5 Ebrill 2019 – Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Grŵp Ymgynghori Ewropeaidd Prif Weinidog Cymru.

17 Rhagfyr 2019 – Trefnodd HCC gyfarfod ar gyfer y prif broseswyr i drafod materion yn ymwneud ag amddiffyn y diwydiant a newid yn yr hinsawdd.

7 Ionawr 2020 – Bu'r Cadeirydd yng Nghynhadledd Ffermio Rhydychen.

27 Ionawr 2019 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod Bord Gron Brexit yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (EERA).

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Mercher 6 Tachwedd 2019 (HCC 915)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Mercher 6 Tachwedd 2019 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Ymgyrchoedd HCC i hybu Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI ymhlith y Defnyddwyr*

Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu'r Farchnad fod adroddiad Gweithgareddau HCC yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am ymgyrchoedd defnyddwyr ac o bryd i'w gilydd gwnaed cyflwyniad mwy ffurfiol i'r Bwrdd.

*Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a Chostau Adennill 2020 / 2021*

Nodwyd bod argymhelliad y Bwrdd na ddylid newid cyfraddau'r Ardoll ar gyfer 2020 / 2021 wedi cael ei gyflwyno i'r Gweinidog i'w ystyried.

*Adolygiad o Ragofynion Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI*

Roedd gwaith mewn perthynas â'r uchod yn parhau.

6. **Y diweddaraf am Brexit - I drafod y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r DG yn ymadael â'r UE**

Nodwyd mai blaenoriaeth y Llywodraeth newydd fyddai cyflawni Brexit gyda'r bwriad o gael y DG yn ymadael â'r UE ar 31 Ionawr 2020. Ceid cyfnod trosiannol o 11 mis tan ddiwedd 2020 wrth i'r DG a'r UE drafod trefniadau. Rhagwelid y byddai'r rheolau cyfredol ar gyfer masnach, teithio a busnes yn parhau yn ystod y cyfnod trosiannol ac y byddai canllawiau newydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2021.

Cynhaliwyd cyfarfod Bord Gron y Gweinidog ar gyfer Rhanddeiliaid Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar 15 Ionawr 2020, ac roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol. Yn y cyfarfod cafwyd diweddariadau gan y Gweinidog; Tim Render, Cyfarwyddwr Amaeth; Gian Marco Currado, Negodiadau Masnach Ryngwladol; a James Owen, Polisi Ffermio ôl-CAP.

7. **Adroddiadau HCC**

a. Gweithgareddau (HCC 916)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

***Cyfathrebu***

*Adborth i Gynhadledd Flynyddol HCC*

Câi'r uchod ei thrafod yn fanwl yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu ar 16 Ionawr 2020.

Cafwyd adborth positif iawn gan y rhai a oedd yn bresennol o ran siaradwyr, lleoliad ac arlwyo.

Barn gyffredinol y Bwrdd oedd y bu'r gynhadledd yn dda dros gyda dewis rhagorol o siaradwyr a chroestoriad da o randdeiliaid yn bresennol. Fodd bynnag, cytunwyd nad oedd digon o amser ar gyfer Holi ac Ateb a bod angen i'r Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu ystyried a ddylid cynnal cynhadledd 2020 hefyd ar Faes Sioe Frenhinol Cymru.

Câi'r mater hwn ei drafod gan y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a rhoddid argymhelliad i'r Bwrdd yn ystod y cyfarfod ar 5 Mawrth 2020.

*Advorth i'r Ffair Aeaf*

Roedd y Bwrdd yn teimlo y bu'r Ffair Aeaf yn llwyddiannus i HCC.

Roedd nifer dda yn bresennol ym mrecwast HCC, ac roedd gweini mwy o gynhyrchion premiwm wedi bod yn welliant pendant. Roedd y stondin yn brysur drwy'r amser gyda gweithgareddau i ddenu rhanddeiliaid a defnyddwyr. Roedd nifer dda yn bresennol hefyd ar gyfer y digwyddiad Ysgoloriaeth, a theimlwyd ei fod yn lwyfan ar gyfer rhwydweithio i ysgolorion a chyn-ysgolorion.

Roedd y Bwrdd am longyfarch y Weithrediaeth am ddyluniad a fformat y stondin a enillodd y wobr am y Stondin Masnach Gorau.

Câi presenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf ei drafod hefyd gan y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu ar 16 Ionawr 2020.

*Yr Ymgyrch Defnyddwyr ar gynaladwyedd Cig Coch Cymru – Y Ffordd Gymreig*

Cyflwynwyd gwybodaeth ac enghreifftiau o'r deunyddiau ar gyfer yr ymgyrch marchnata a chyfathrebu hwn gan y Rheolwr Datblygu'r Farchnad.

Roedd y gweithgareddau'n cynnwys strategaeth gyfryngau cymdeithasol wedi'i thargedu, yn ogystal â hysbysebu ar y radio, teledu digidol a'r cyfryngau print.

Roedd cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu a châi hwnnw ei rannu â'r Bwrdd maes o law.

Gwnaed trefniadau i fesur llwyddiant yr ymgyrch, a châi'r canlyniadau eu gwerthuso yn rheolaidd. Gwneid gwerthusiad terfynol ar ddiwedd yr ymgyrch a chyflwynid adroddiad i'r Bwrdd.

Cafodd datblygiad yr ymgyrch ei groesawu gan y Bwrdd.

***Datblygu'r Farchnad***

*Ymgyrchoedd Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI 2018 – 2019 / 2019 – 2020*

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu'r Farchnad lyfryn a gafodd ei gynhyrchu i roi manylion am y gwaith a wnaed gan yr uchod yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Cynhyrchwyd y llyfryn er gwybodaeth i'r Bwrdd ac fel cyhoeddiad y gellid cyfeirio ato.

*Datblygu'r Farchnad Allforio*

Roedd y tîm Datblygu'r Farchnad Allforio ar hyn o bryd yn cynllunio ar gyfer ac yn adolygu lleoliadau ar gyfer stondinau, themâu, ac ymgysylltiad / cefnogaeth gan broseswyr cyn ffeiriau masnach SIAL, Paris 2020 ac Anuga, Cologne 2021.

***Datblygu'r Diwydiant a Chysylltiadau***

*Map Trywydd HCC ar gyfer Cynaliadwyedd*

Nodwyd bod y gwaith o ddatblygu'r uchod yn mynd yn ei flaen yn dda. Roedd Archwiliad Carbon wedi dechrau ar oddeutu 20 fferm. Byddai'r data'n sylfaenol o ran darparu tystiolaeth i fod wrth wraidd y Map Trywydd. Roedd gwaith yn cael ei wneud hefyd ar ymchwilio'r dystiolaeth a oedd ar gael am ddiwydiant cig coch Cymru er mwyn gallu dadansoddi bylchau. Câi'r Bwrdd wybod am y cynnydd yn ystod ei gyfarfod nesaf. Roedd disgwyl i'r map trywydd gael ei lansio ym mis Mehefin 2020.

*Y Rhaglen Datblygu Cig Coch (RMDP)*

*Cynllun Hyrddod Mynydd*

Dywedodd Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant fod y ffenestr mynegi diddordeb wedi agor er mwyn i ffermwyr allu cymryd rhan yn y cynllun. Y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb oedd 31 Mawrth 2020. Roedd gwybodaeth bellach ar gael ar wefan gorfforaethol HCC.

*Ffermio Arloesol ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy*

Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer dau ddigwyddiad Rhaglen Datblygu Cig Coch (RMDP) – yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Glynllifon (Dydd Mawrth 4 Chwefror 2020 am 6.30pm) a Choleg Sir Gâr, Gelli Aur (Dydd Iau 6 Chwefror 2020). Byddai'r siaradwyr yn y cynadleddau yn cynnwys Alwyn Philips, ffermwr (digwyddiad Glynllifon), ac Aled Picton Evans, ffermwr (digwyddiad Gelli Aur). Byddai Non Williams, ymchwilydd yn gweithio ar ei PhD "Y rheolaeth orau o borfeydd yr ucheldir er budd yr economi a'r amgylchedd" ym Mhrifysgol Bangor, yn annerch y ddau ddigwyddiad.

b. I dderbyn adroddiad llafar ynghylch Rhagolygon Alldro 2019 / 2020

Cafwyd adroddiad am yr uchod gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

c. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 917)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Nodwyd ei bod yn bosibl fod yna gamddealltwriaeth yn y diwydiant ynghylch pam fod prisiau cig eidion wedi bod mor isel yn ystod y misoedd diwethaf. Fodd bynnag, teimlwyd bod newyddion da i'w rannu ar hyn o bryd am fod y prisiau wedi codi yn ddiweddar. Byddai cysylltiadau cyhoeddus positif yn cael ei rhyddhau ynglŷn â hyn er gwybodaeth i randdeiliaid.

Roedd yn dda nodi bod gwerth allforion cig defaid ym mis Hydref 2019 yn 8.8% yn uwch nag oedden nhw flwyddyn yn gynharach.

d. Digwyddiadau i ddod (HCC 918)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

8. **Corfforaethol**

a. I ystyried Cynllun Corfforaethol drafft HCC ar gyfer 2020 / 2023 (HCC 919)

b. I ystyried Cynllun Gweithredol drafft HCC ar gyfer 2020 / 2021 (HCC 920)

Cymerwyd bod y ddwy ddogfen wedi'u ddarllen a chafwyd crynodeb gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Nid oedd unrhyw newidiadau o bwys heblaw diweddariad o'r ystadegau. Cafodd mwy o bwyslais ei osod ar heriau'r diwydiant - megis yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd - a chafodd y dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) eu hadolygu.

Pennwyd y proffil incwm a gwariant yn gyllideb ar gyfer 2020 / 2021 a fyddai'n dechrau o sero.

Yn dilyn trafodaeth, cafodd y dogfennau eu cymeradwyo gan y Bwrdd a chytunwyd y dylid cyflwyno Cynllun Corfforaethol 2020 / 2023 a Chynllun Gweithredol 2020 / 2021 i'r Gweinidog i'w hystyried. Byddai gan y dogfennau yr un amodau ag yn y flwyddyn flaenorol, sef y caent eu hadolygu yn unol â chanlyniad Brexit.

9. **I dderbyn a chymeradwyo'r Cynllun Gwaith i'r Bwrdd ar gyfer 2020 / 2021 (HCC 921)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

10. **I dderbyn diweddariad am Ailwladoli Ardoll (HCC 922)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafwyd crynodeb gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Cafodd y fethodoleg arfaethedig ar gyfer sylfaen ailwladoli ei chytuno erbyn hyn gan bob un o'r tri Bwrdd Ardoll (AHDB, HCC a QMS). Cafodd hyn ei ystyried yn flaenorol gan y Bwrdd ac roedd yn canolbwyntio ar ailddosbarthu ardoll y cynhyrchwyr yn seiliedig ar ddata preswylfa. Câi Ardoll y prosesydd ei gadw yng ngwlad y casglu.

**Y camau nesaf:**

Gofynnwyd am gytundeb y Gweinidog i'r argymhellion hyn, fel y gellid eu mabwysiadu fel rhan o gynllun ailddosbarthu yn y dyfodol.

Roedd y cynllun yn ddibynnol ar ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol trwy'r Bil Amaethyddiaeth. Roedd y Bil, fel y cafodd ei ddrafftio, yn cynnwys y ddarpariaeth i ganiatáu i'r cynllun ailddosbarthu Ardollau. Cyn bo hir byddai'r Bill yn dechrau ar ei daith drwy'r broses ddeddfwriaeth yn San Steffan.

Cafodd y Prif Weithredwr a'r Swyddog Gweithredol Cig Coch eu cymeradwyo gan y Bwrdd am y gwaith a wnaed mewn perthynas â'r uchod.

11. **Pwyllgorau HCC**

***Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg***

a. I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 6 Tachwedd 2019 (HCC 923)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

***Y Pwyllgor Cynghori  ar Farchnata***

b. I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Mawrth 1 Hydref 2019 (HCC 924)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

12. **Unrhyw fater arall**

*EIDCymru*

Nodwyd y byddai'r Gweinidog yn cyhoeddi cyllid i gefnogi buddsoddiad mewn seilwaith digidol gan farchnadoedd da byw, canolfannau casglu a lladd-dai (busnesau bach a chanolig eu maint) cymwys yng Nghymru).

O 1 Chwefror 2020, gallai busnesau cymwys sydd yn Ganolfannau Cofnodi Canolog (CPRCs) wneud cais am gyllid er mwyn gwella eu seilwaith digidol. Byddai hyn yn caniatáu mwy o ddefnydd o dechnoleg ac yn cefnogi unrhyw gynllun i gyflwyno Dulliau Adnabod Electronig ar gyfer gwartheg, ochr yn ochr â'r system lwyddiannus ar gyfer defaid.

Cafodd yr uchod ei groesawu gan y Bwrdd a chytunwyd y byddai diweddariad am EIDCymru yn cael ei roi mewn cyfarfod yn y dyfodol.

13. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod:**

Diweddariad am delegynhadledd y Bwrdd – Dydd Iau 6 Chwefror 2020 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 5 Mawrth 2020.

**Llofnodwyd……………………………**
**Cadeirydd HCC**